

BIL CYMRU DRAFFT

Tystiolaeth Ysgrifenedig Atodol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru

Cyflwyniad

1. Yn y Dystiolaeth Ysgrifenedig flaenorol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor ynglŷn â'r Bil Cymru drafft, dywedasom:

"Fel y cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol ar 7 Hydref 2015, cred Llywodraeth Cymru y dylid "creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru fel y fframwaith cyfreithiol mwyaf dymunol ac effeithiol i gyd-fynd â'r broses o weithredu'r model cadw pwerau ar gyfer datganoli". Bydd cadw awdurdodaeth bresennol Cymru a Lloegr yn arwain at gymhlethdod o fewn setliad Cymru nad yw'n gymesur â dyheadau'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch eglurder ac ymarferoldeb".

2. Diben y Dystiolaeth Atodol hon yw egluro'n fanylach beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater pwysig hwn y cymerodd y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Materion Cymreig ddiddordeb ynddo yn ystod Tystiolaeth Lafar y Prif Weinidog. Byddwn yn anfon copi o'r Dystiolaeth Atodol hon ymlaen at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cymreig, a gobeithiwn y bydd o gymorth i'r ddau Bwyllgor.

3. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn fod y cydsyniad o awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru yn cynnwys (1) ardal ddaearyddol neilltuol, sef Cymru¹ yn yr achos hwn, y mae cyfreithiau Senedd y DU a'r Cynulliad yn berthnasol iddi ² (h.y. eu rychwant), (2) llysoedd penodol a neilltuol i Gymru sydd ag awdurdodaeth sy'n cyfateb yn fras i rychwant ei chyfreithiau a (3) corff o gyfreithiau neilltuol i Gymru. Dywedir mwy am lysoedd "penodol a neilltuol" i Gymru isod. O ran "cyfraith neilltuol i Gymru", dyma rydym yn ei olygu:

- Deddfau Senedd y DU (rhai sy'n dyddio cyn ac ers i ddatganoli ddechrau) a fwriadwyd i fod yn berthnasol yng Nghymru ac sy'n ymdrin â materion datganoledig a materion sydd heb eu datganoli;
- Mesurau a Deddfau'r Cynulliad Cenedlaethol;
- Is-ddeddfwriaeth a wnaethpwyd o dan neu yn rhinwedd Deddfau Senedd y DU a Mesurau a Deddfau'r Cynulliad;
- Cyfraith yr UE sy'n cael effaith uniongyrchol yn y DU (h.y. ym mhob un o awdurdodaethau'r DU); ac
- y gyfraith gyffredin a'r ecwiti a ddatblygwyd yn flaenorol o fewn awdurdodaeth Cymru a Lloegr.

Sail Resymegol

¹ Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r diffiniad o "Gymru" sy'n berthnasol at y diben hwn yw'r un a bennir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ac o dan y Ddeddf honno yn hytrach na'r un a bennir yn Neddf Dehongli 1978. Byddai'n cynnwys y dyfroedd tiriogaethol sy'n gyfagos i Gymru. Bydd angen rhoi ystyriaeth i Barth Cymru hefyd.

² Yn achos y Senedd, o ran y DU gall ei chyfreithiau, wrth gwrs, fod yn berthnasol hefyd i'r Alban, Gogledd Iwerddon a/neu (os caiff awdurdodaeth Cymru ei chreu) Lloegr.

4. Yn Nhystiolaeth Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i Gomisiwn Silk a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2013, dywedasom mai ein huchelgais yn y tymor hir fyddai gweld awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân yn cael ei sefydlu ar gyfer Cymru, ond nad oedd hynny'n rhywbeth y gellid ei ystyried bryd hynny. Y rheswm dros hyn oedd fod ein gweledigaeth o awdurdodaeth ar wahân yn cynnwys, o angenrheidrwydd, datganoli cyfrifoldeb am blismona a gweinyddu cyfiawnder troseddol a sifil i Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Ein barn oedd y dylid ac y gellid datganoli plismona yn gymharol gyflym, ond fod datganoli gweinyddu cyfiawnder (ac felly sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân) yn brosiect dymunol ond yn un ar gyfer y tymor hir.
5. Fodd bynnag, wedi i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyhoeddi'r Bil Cymru drafft ac oherwydd yr agwedd a geir yn y Bil drafft at gadw awdurdodaeth gyfreithiol unigol Cymru a Lloegr, sy'n dro pedol na welwyd 'mo'i debyg o'r blaen ar bwerau'r Cynulliad, ynghyd â'r ddadl y mae wedi ei sbarduno, mae Llywodraeth Cymru wedi ailystyried y cwestiwn ynghylch awdurdodaeth er mwyn mynd i'r afael â'r effeithiau mwy dybryd ar gymhwysedd y Cynulliad y byddai'r Bil drafft hwn yn eu hachosi.
6. Mae'r Bil yn mynd rhagddo ar y dybiaeth (annatganedig ond hanfodol) y dylid cadw awdurdodaeth unigol Cymru a Lloegr. Ymddengys bod Llywodraeth y DU yn credu bod canlyniadau penodol yn deillio o hynny, ac mae'r rhain yn mynd at wraidd y mater ynghylch pa mor ymarferol a pha mor gadarn yw'r setliad y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei gynnig yn awr. Fel yr oedd ein Tystiolaeth Ysgrifenedig gynharach yn ei esbonio,

“Ar hyn o bryd gall y Cynulliad Cenedlaethol addasu'r gyfraith cytundebau, y gyfraith gyffredin ac agweddau eraill ar gyfraith breifat a chyfraith trosedd lle bynnag y mae'r addasiadau hynny'n *gysylltiedig* â phwnc datganoledig. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, symleiddio'r modd y mae contractau'n gweithio o fewn meysydd datganoledig lle y mae hynny'n briodol ar gyfer sicrhau bod deddfwriaeth y Cynulliad yn effeithiol neu greu trosedd mewn perthynas â'r meysydd datganoledig hyn. **Mae'r Bil drafft yn cwtogi'n sylweddol ar y gallu hwn, gan gyfyngu ar bŵer y Cynulliad Cenedlaethol i addasu'r gyfraith breifat i ddarpariaethau sydd un ai'n '*angenrheidiol ar gyfer pwrpas datganoledig*' neu'n '*ategol*' at ddarpariaeth arall sydd o fewn cymhwysedd, a chyfyngu ar bŵer y Cynulliad Cenedlaethol i addasu'r gyfraith trosedd yn gyfan gwbl i ddarpariaethau sy'n ategol i ddarpariaeth arall sydd o fewn cymhwysedd.** Yn y ddau achos, mae'r darpariaethau'n cael eu rhwystro ymhellach rhag cael unrhyw effaith fwy ar 'gymhwysiad cyffredinol [beth bynnag y mae hynny'n ei olygu] y gyfraith breifat neu droseddol' nag sy'n *angenrheidiol*.”

7. Pam y gosodir y cyfyngiadau newydd hyn ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol? Mae'r ateb ym mharagraff 32 y Nodiadau Esboniadau ar y Bil Drafft a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU:

"Bwriadwyd y cyfyngiad mewn cysylltiad â chyfraith breifat ..., ynghyd â'r cyfyngiad mewn cysylltiad â chyfraith trosedd ..., er mwyn darparu lefel gyffredinol o amddiffyniad i system gyfreithiol unedig Cymru a Lloegr, tra'n caniatáu rhywfaint o ryddid i'r Cynulliad addasu'r meysydd cyfreithiol hyn o fewn cyfyngiadau'r eithriadau yn y paragraffau hynny". (ychwanegwyd pwyslais)

Ymddengys bod hyn yn golygu bod rhaid, er mwyn "amddiffyn" system gyfreithiol unedig Cymru a Lloegr, cyfyngu ar rychwant y gwahaniaeth y gellir ei ganiatáu rhwng Cymru a Lloegr o ran y gyfraith breifat gadarnhaol (a ddiffinnir yn fras iawn) a chyfraith trosedd mewn perthynas â materion datganoledig; dim ond "rhywfaint o ryddid" a

ganiateir i'r Cynulliad i'w haddasu mewn cysylltiad â Chymru. Felly, yn ôl pob golwg, mae amcan (neu dybiaeth) polisi Llywodraeth y DU o gadw'r awdurdodaeth gyfreithiol unigol yn gofyn am gyfyngu sylweddol ar bwerau'r Cynulliad i addasu cyfraith breifat a chyfraith trosedd, er mai'r bwriad wrth addasu'r meysydd hynny o'r gyfraith yw cyflawni amcanion polisi mewn materion lle ceir cymhwysedd datganoledig llwyr a'r Cynulliad yw'r brif ddeddfwrfa sylfaenol ar eu cyfer.

8. Mae Prif Weinidog Cymru wedi dweud mewn tystiolaeth fod y cyfyngiadau ar gymhwysedd, yn y bôn, yn cadw "y gyfraith" yn ôl ac, felly, yr hyn y mae'r Bil yn ei ddarparu mewn gwirionedd yw model rhoi pwerau. Mae hyn oherwydd bod y cyfyngiadau ar gyfraith breifat a chyfraith trosedd (y gyfraith sy'n sail i'r mwyafrif o amcanion polisi) yn "gyffredinol" ac yn cael gwared yn llwyr ar gymhwysedd y Cynulliad a fyddai'n bodoli fel arall yn y cyswllt hwn; maent wedyn yn ail-roi pwerau cyfyngedig penodol i'r Cynulliad ac, felly, byddai'n addas eu disgrifio o hyd yn y cyswllt pwysig hwn fel model rhoi pwerau.
9. Ym marn Llywodraeth Cymru, o ystyried canlyniad y Refferendwm a gynhaliwyd yn 2011, mae'r cyfyngiadau hyn, ymysg rhai eraill a gynigiwyd, yn annerbyniol ac yn annemocrataidd. Dyma oedd Cwestiwn y Refferendwm, y rhoddodd dwy ran o dair o'r rhai a bleidleisiodd ateb gadarnhaol iddo:

A ydych yn dymuno i'r Cynulliad allu llunio deddfau ar **bob** mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt?

Roedd y pwyslais ar y gair "bob" yn y cwestiwn ei hun a gymeradwywyd gan y Comisiwn Etholiadol. I wneud y pwynt amlwg, nid yw caniatáu "rhywfaint o ryddid" i'r Cynulliad drwy'r Bil Cymru drafft i addasu cyfraith sifil a chyfraith trosedd yn gyson mewn unrhyw ffordd â'r mandad gan yr etholwyr, y dylai'r Cynulliad allu deddfu ar "bob mater" o fewn y meysydd y mae ganddo gymhwysedd ynddynt.

10. Cred Llywodraeth Cymru y dylid cydnabod a pharchu'r mandad democrataidd fel yr egwyddor sy'n sail i'r model cymhwysedd deddfwriaethol y bwriedir i'r Bil drafft ddarparu ar ei gyfer. Felly, rydym yn dod i'r casgliad na ddylid cyfyngu ar bwerau'r Cynulliad i addasu cyfraith sifil a chyfraith trosedd mewn materion lle ceir cymhwysedd datganoledig yn y ffyrdd y mae'r Bil drafft yn eu cynnig. Hefyd, os yw'r casgliad hwnnw yn golygu bod rhaid symud oddi wrth system gyfreithiol unedig Cymru a Lloegr (fel y cred Llywodraeth y DU, yn ôl pob golwg), dylai'r Bil drafft ddarparu ar gyfer hynny. Mae hyn yn gyson â'n tystiolaeth ac ein hymateb i Gomisiwn Silk. Mae hefyd yn gyson â pholisïau hirsefydlog Llywodraeth Cymru.

Rhai Goblygiadau

11. Ym mharagraff 3 uchod, rydym yn cyfeirio at "system lysoedd penodol a neilltuol i Gymru" fel nodwedd hanfodol o awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio nad yw hyn o reidrwydd yn golygu creu set newydd o lysoedd i Gymru. Yn ei anerchiad i Gymru'r Gyfraith ym mis Hydref 2015, gwnaeth yr Arglwydd Brif Ustus, yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd, y sylw hwn:

“there is no reason why a unified court system encompassing England and Wales cannot serve two legal jurisdictions”.

12. Ni wnaeth yr Arglwydd Thomas ymhelaethu ar hyn, ond ym marn Llywodraeth Cymru y mae hyn yn darparu modd i fynd i'r afael â'r anawsterau y mae'r Bil Cymru drafft yn eu creu heb orfod datganoli gweinyddu cyfiawnder, i gychwyn o leiaf. Ymddengys bod ei farn yn gyson â dadl Llywodraeth Cymru dros greu, yn ddi-oed, awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru sy'n wahanol i awdurdodaeth gyfreithiol Lloegr ond ddim ar wahân iddi - awdurdodaeth a gefnogir gan system Lysoedd unigol ac a gynhelir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yr un fyddai'r system farnwriaeth a gweinyddol, yr adeiladau etc ag sy'n bodoli yn awr.
13. Rydym wedi atodi drafftiau deddfwriaethol i egluro hyn ymhellach (ond rhaid pwysleisio y byddai angen rhoi rhagor o ystyriaeth i'r drafftiau hyn ac y byddai angen rhoi sylw i faterion pwysig eraill yn y ddeddfwriaeth). O dan y cynigion hyn, byddai Barnwyr a fyddai hyd yma wedi cael eu penodi i Uchel Lys Cymru a Lloegr yn cael eu penodi i Uchel Lys Lloegr ac, ar yr un pryd, i Uchel Lys Cymru. Byddent yn eistedd yn yr Uchel Lys sy'n briodol i'r achosion ger eu bron (ac mewn achosion sy'n ymwneud â'r gyfraith gyffredin, byddai'n cael ei datblygu ar gyfer Cymru yn yr un modd ag y caiff ei datblygu ar gyfer Lloegr). Byddai cadw barnwriaeth ar y cyd yn darparu lefel bwysig o amddiffyniad er mwyn cael cysondeb yn y gyfraith gyffredin ac ecwiti rhwng yr awdurdodaethau. (Er y byddai barnwyr a llysoedd "yng Nghymru" yn rhydd i ddewis llwybr gwahanol, mae'n debygol mai rhywbeth prin fyddai hynny.) Mewn ffordd debyg, byddai'r Llys Apêl yn Llys Apêl i Gymru neu i Loegr, yn ôl yr amgylchiadau. Byddai'r Goruchaf Lys yn eistedd ar frig system lysoedd Cymru (a Lloegr, ar wahân) yn yr un modd ag y mae ar hyn o bryd ar gyfer awdurdodaethau Cymru a Lloegr, Gogledd Iwerddon ac (yn ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol) yr Alban. Felly, byddai'r Goruchaf Lys yn parhau i ddarparu goruchwyliaeth gyffredinol dros hanfodion, a datblygiad, y gyfraith ac egwyddorion cyfreithiol ar gyfer Lloegr, ar gyfer Cymru, ar gyfer Gogledd Iwerddon ac hefyd (gan ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau o ran systemau) ar gyfer yr Alban. Byddai gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith yn parhau i fod yn hollol rydd i ymarfer yn llysoedd Lloegr ar un llaw, ac yn llysoedd Cymru ar y llaw arall. Byddent yn parhau i gael eu rheoleiddio yn yr un modd ag y cânt eu rheoleiddio ar hyn o bryd wrth ymarfer ar hyd a lled Cymru a Lloegr.
14. Y pwynt wrth sefydlu'r trefniadau hyn yn awr (yn hytrach na'r nod tymor hir o ddatganoli gweinyddu cyfiawnder yn llwyr a chael awdurdodaeth 'ar wahân') fyddai galluogi Bil Cymru i ddarparu'n fwy boddhaol ar gyfer pwerau deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yng nghyswllt cyfraith sifil a chyfraith trosedd, a hynny mewn modd sy'n adlewyrchu mandad Refferendwm 2011 a statws y Cynulliad fel deddfwrfa sylfaenol sydd wedi datblygu'n llawn yn briodol.
15. Fel yr ydym wedi esbonio uchod, mae'n ymddangos bod y cyfyngiadau ar bwerau'r Cynulliad a gynigir yn y Bil drafft yn deillio o'r gred fod cadw'r awdurdodaeth unigol gyfredol yn golygu mai dim ond rhyw fesur cyfyngedig o wahaniaeth sydd ei angen mewn cyfraith trosedd a chyfraith breifat gadarnhaol sy'n berthnasol yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae gwrthsefyll gwahaniaethau o ran cyfreithiau mewn awdurdodaeth lle ceir dwy ddeddfwrfa - sy'n rhywbeth unigryw, yn aneffeithiol yn y pen draw, ac mae ceisio

gwneud hynny, yn y bôn, yn tanseilio'r Cynulliad. Heb y cyfyngiad hwnnw ar bolisi, byddai'n bosibl ystyried y cwestiwn ynghylch cwrpas cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad o ran cyfraith sifil a chyfraith trosedd o safbwynt eithaf gwahanol. Ni fyddai newidiadau i'r gyfraith a fyddai'n cael eu pasio gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ymestyn i Loegr mwyach ac ni fyddent yn ffurfio rhan o gyfraith Lloegr - mewn geiriau eraill byddent yn gyfyngedig i Gymru ac i awdurdodaeth gyfreithiol Cymru - fel sy'n wir ym mhob cyfansoddiad datganoledig neu ffederal ym mhobman arall ym myd y gyfraith gyffredin.

16. Nid ydym yn dadlau y dylai pwerau'r Cynulliad i addasu cyfraith sifil a chyfraith trosedd o fewn y meysydd lle ceir cymhwysedd datganoledig fod yn ddiderfyn. O ran cyfraith trosedd, rydym yn cydnabod bod y setliadau datganoli ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cadw nifer o droseddau penodol a grwpiau o droseddau o dan gymhwysedd Senedd y DU yn unig, a gellid dilyn yr un drefn ar gyfer Cymru. Ac fel yr ydym wedi dweud eisoes, mewn tystiolaeth Ysgrifenedig i Bwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi,

"Given Wales' distinctive relationship and degree of socio-economic integration with England, the list of matters attributed to Westminster may, by agreement, include some which may more appropriately be dealt with on an England-and-Wales basis... There should ... be no assumption that those matters for which Westminster is responsible in respect of Wales will be identical to those in respect of Scotland or Northern Ireland, although there will be very many common features in the lists".

Felly, o ran y Bil Cymru drafft, mae'n bosib iawn fod angen eithriadau ychwanegol ar gyfer troseddau penodol yn yr Atodlen 7A ddrafft, ond gellid a dylid symleiddio yr Atodlen 7B gyfredol i raddau helaeth.

17. Byddai'r dull a ddisgrifir yn y dystiolaeth hon yn rhoi set helaethach o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol na'r hyn y mae'r Bil drafft yn ei ragweld. Byddai'r set honno'n fwy priodol i'w statws fel deddfwrfa sylfaenol. I'r gwrthwyneb, byddai sefydlu awdurdodaeth neilltuoel i Gymru yn lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad mewn o leiaf un agwedd, sef na fyddai o hynny allan yn gallu deddfu yn "alldiriogaethol" mewn cysylltiad â rhannau o Loegr, fel sy'n bosibl ar hyn o bryd o dan adran 108(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ac y byddai'n parhau i fod yn bosibl, o dan amgylchiadau gwahanol, drwy ddarpariaethau yn y Bil Cymru drafft). Eto, efallai'n wir y byddai hyn yn briodol fel ffordd o gael eglurder ynghylch y diriogaeth y mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb am ddeddfu ar ei chyfer. Fodd bynnag, gallai'r Ysgrifennydd Gwladol gymryd rheolaeth dros y materion deddfwriaethol trawsffiniol sy'n gysylltiedig â Lloegr, drwy ddefnyddio'r pŵer y darperir ar ei gyfer eisoes yn adran 150 o Ddeddf 2006. Mae'r pŵer hwnnw'n caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn, wneud pa bynnag ddarpariaethau sy'n briodol o ganlyniad i Ddeddfau'r Cynulliad neu is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru. Dyma yw'r dull a ddefnyddir hefyd i ymdrin â materion o'r fath o dan setliad yr Alban.
18. Yn olaf, mae'n bwysig nodi un anhawster allweddol ynglŷn â'r Bil Cymru drafft na fyddai creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru, ar ei ben ei hun, yn mynd i'r afael ag ef. Ar hyn o bryd, ac eithrio gyda chydysyniad Gweinidogion y DU, ni all Deddf a wneir gan y Cynulliad ddiddymu nac addasu unrhyw swyddogaeth sydd gan unrhyw un o Weinidogion y Goron a oedd yn arferadwy cyn 5 Mai 2011 (pan ddaeth Rhan 4 o Ddeddf 2006 i rym), hyd yn

oed os yw'r swyddogaeth o fewn y meysydd lle ceir cymhwysedd datganoledig. Mae'r cyfyngiad hwn yn annerbyniol ynddo'i hun, ac mae Llywodraeth Cymru wedi pwysu ar yr Ysgrifennydd Gwladol i'w ddiddymu, ond mae paragraff 8 yn Atodlen 7B i'r Bil drafft yn ymestyn yn sylweddol yr amgylchiadau pan fyddai angen cydsyniad Gweinidogion y DU er mwyn i'r Cynulliad allu deddfu mewn meysydd sydd wedi eu datganoli'n llwyr. Mae'r cyfyngiadau hyn, ynghyd â'r rhai y mae'r angen honedig i "amddiffyn" awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr yn eu creu, yn gymhleth ac maent yn rhwystro sefydliadau yng Nghymru rhag llywodraethu'n rhydd o fewn y meysydd datganoledig hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddadlau dros newid y sefyllfa a thros gydraddoldeb gyda'r Alban a Gogledd Iwerddon.

Casgliad

19. Barn Llywodraeth Cymru, felly, yw mai awdurdodaeth gyfreithiol neilltuol, o dan yr amgylchiadau cyfredol, fyddai'n darparu'r fframwaith gorau ar gyfer setliad datganoli i Gymru, gyda phwerau deddfu i'r Cynulliad Cenedlaethol a fyddai'n adlewyrchiad priodol o fandad Refferendwm 2011. Rydym yn nodi mai dyma yw barn nifer o rai eraill sydd wedi cyflwyno dystiolaeth i'r Pwyllgor. Rydym yn gwahodd y Pwyllgor i ddod i gasgliad yn unol â hynny, a gobeithiwn y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, y byddwn yn cyflwyno copi o'r Dystiolaeth Atodol hon iddo, yn rhoi ystyriaeth lawn a theg i'r consensws sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru ynglŷn â'r mater hwn.
20. Yn ei dystiolaeth lafar, fe wnaeth Prif Weinidog Cymru nodi'n glir bod ffyrdd eraill y gellid diwygio'r Bil er mwyn cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol heblaw drwy greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. Ers hynny, bydd y Pwyllgor wedi cael amser i ystyried y cynigion gan y Llywydd ynglŷn â diwygiadau i'r Bil a fyddai'n golygu ei fod yn cyd-fynd yn well â mandad y Refferendwm. Ym marn Llywodraeth Cymru, nid yw dadleuon y Llywydd yn golygu nad yw'r achos dros awdurdodaeth gyfreithiol neilltuol yn sefyll bellach (ac nid dyna oedd ei bwriad penodol), ond gellid ystyried yr opsiwn amgen y mae'n ei ffafrio ('Opsiwn A') os nad yw Llywodraeth y DU yn fodlon derbyn y dadleuon yr ydym ni ac eraill wedi eu cyflwyno ynghylch awdurdodaeth. Rydym yn pwysleisio, fodd bynnag, nad ydym yn ystyried bod Opsiwn B ac opsiwn C a gynigir yn atebion dichonol i'r mater hwn.
21. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio bod y Dystiolaeth Ategol hon o gymorth i'r Pwyllgor, ac edrychwn ymlaen at Adroddiad y Pwyllgor ar y Bill drafft.

Llywodraeth Cymru

Tachwedd 2015